

## Cylchlythyr | Circular

# Y Rhaglen Ymgynghoriad yn Ehangach: Ymgynghoriad ar gyllid y Bartneriaeth Ymgynghoriad yn Ehangach

**Dyddiad:** 04 Chwefror 2022  
**Cyfeirnod:** W22/02HE  
**Gorffen:** Penaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru  
Penaethiaid colegau addysg bellach a ariennir yn  
uniongyrchol yng Nghymru  
Gadeiryddion a Rheolwyr Partneriaethau Ymgynghoriad yn  
Ehangach

**Ymateb erbyn:** 18 Mawrth 2022  
**Cyswllt** Jane Johns, Savanna Jones  
[jane.johns@hefcw.ac.uk](mailto:jane.johns@hefcw.ac.uk);  
[savanna.jones@hefcw.ac.uk](mailto:savanna.jones@hefcw.ac.uk)

Yn y cylchlythyr ymgynghori hwn gofynnir am sylwadau ynghylch cyllid CCAUC ar gyfer Partneriaethau Ymgynghoriad yn Ehangach yng nghyfnod y strategaeth o 2022/23 i 2024/25.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch  
mewn fformat hygyrch arall,  
anfonwch e-bost i [info@hefcw.ac.uk](mailto:info@hefcw.ac.uk).



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**

## Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr ymgynghori hwn yn gwahodd sylwadau ar gyllid y Bartneriaeth Ymgynghori yn Ehangach (YE) gan CCAUC yn ystod cyfnod y strategaeth o 2022/23 i 2024/25.
2. Rydym wedi ymgynghori ar ganllawiau'r Rhaglen Ymgynghori yn Ehangach ar gyfer 2022/25, a'u cyhoeddi (gweler y cylchlythyr [W21/38HE: Canllawiau'r Rhaglen Ymgynghori yn Ehangach](#)). Mae'r ymgynghoriad yn cyfeirio at cyllid ar gyfer y Partneriaethau YE ar gyfer y cyfnod strategaeth yma.
3. Yn ogystal â chyllid CCAUC ar gyfer y Bartneriaethau YE, bydd sefydliadau a reoleiddir yn parhau i ymrwymo cyfanswm o £1.7m i gefnogi'r Rhaglen Ymgynghori yn Ehangach yn ystod cyfnod y strategaeth o 2022/23 i 2024/25 o fuddsoddiadau mewn cynlluniau mynediad a ffioedd. Yn ogystal â hyn, gall Partneriaethau sicrhau cyllid allanol i gefnogi amcanion a blaenoriaethau'r Rhaglen Ymgynghori yn Ehangach a defnyddio cyllid CCAUC fel arian cyfatebol.

## Y Cefndir

4. Yn 2021, cadarnhaodd CCAUC gyllid treigl blynyddol y Rhaglen Ymgynghori yn Ehangach ar gyfer Partneriaethau YE a chynyddu cyfanswm dyraniad blynyddol y Partneriaethau Ymgynghori yn Ehangach o £1.7m i £2m. Wrth gadarnhau'r dyraniad hwn, nododd y Cyngor y dylid ystyried y cyllid grant hwn fel buddsoddiad yng ngweithgareddau'r Partneriaethau, ac y bydd CCAUC yn disgwyl gweld canlyniadau a chynnyrch clir yn eu sgil.
5. Yng nghyfnod y strategaeth gyfredol, hyd fis Gorffennaf 2022, cafodd cyllid y Bartneriaethau YE ei ddylunio i adlewyrchu'r berthynas rhwng Partneriaethau YE a'u sefydliadau partner. Canlyniad hyn oedd alinio fformiwla ariannu'r Partneriaethau YE â'r fformiwla cyllid lleihau ffioedd ar gyfer dyraniadau i Sefydliadau a reoleiddir. O ganlyniad i hyn, mae sefydliadau a reoleiddir wedi defnyddio buddsoddiad mewn cynlluniau mynediad a ffioedd i gefnogi eu cyfraniad i'r Rhaglen YE.
6. Yn ogystal ag adlewyrchu maint sefydliadau sydd yn cymryd rhan mewn Partneriaethau YE, mae'r fethodoleg ariannu, hyd at fis Gorffennaf 2022, wedi bod yn ystyriol o ddyraniadau Partneriaethau YE dros gyfnod y Rhaglen YE er iddi gael ei sefydlu yn 2002/03. Yn ystod y cyfnod hwn, mae cyllid y Bartneriaeth YE wedi symud tuag at sicrhau mwy o gysondeb rhwng cyllidebau Partneriaethau a'r ardaloedd o amddifadedd yn eu rhanbarth.
7. Cyn hynny, nid oedd yr ardaloedd o amddifadedd ond yn cynnwys ardaloedd/clystyrau Cymunedau y Gyntaf a chwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC). O 2018/19 trowyd dau gwintel isaf MALIC yn ardaloedd â blaenoriaeth. Cafwyd y newid hwn i'r dull ariannu o ganlyniad i'r canfyddiad canlynol yn [adolygiad WISERD](#): *'mae ein dadansoddiad cychwynnol hefyd yn dangos nad y rhai mwyaf difreintiedig (y cwintel isaf yn nhermau MALIC) sydd yn lleiaf tebygol o gymryd rhan mewn Addysg Uwch yng Nghymru, sy'n wahanol i*

*Loegr. Yn hytrach, y rhai sy'n lleiaf tebygol o gymryd rhan yw'r grŵp uwchben (y pedwerydd cwintel)'.*

8. Drwy ein Mesurau Cenedlaethol, rydym yn parhau i fonitro niferoedd mewn addysg uwch o'r ddau gwintel isaf, ac ar wahân o gwintel isaf MALIC i sicrhau ein bod yn parhau i ehangu mynediad i bobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru o safbwynt economaidd-gymdeithasol.

### **Sail am ariannu Partneriaethau Ymgynraedd yn Ehangach**

9. Wrth adolygu cyllid strategaeth y Bartneriaeth YE o 2022/2023 ymlaen, rydym yn cynnig cadw at yr egwyddorion ariannu a sefydlwyd ar gyfer y Rhaglen YE. Mae'r egwyddorion hyn yn cynnwys:
  - i. peidio cyflwyno newidiadau o bwys i'r drefn ariannu a fyddai'n dadsefydlogi'r Partneriaethau;
  - ii. ystyried y niferoedd o'r ddau gwintel isaf MALIC rhan-amser ac amser llawn mewn addysg uwch, fel procsi ar gyfer amddifadedd economaidd-gymdeithasol. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â'n hymrwymiad i 'weithredu yn ysbryd' dyletswydd economaidd-gymdeithasol y Ddeddf Cydraddoldeb; a
  - iii. chydabod effeithiau lleoliad daearyddol cyfranogwyr MALIC ar gostau cyflenwi.
10. Yng nghyfnod y strategaeth gyfredol hyd at fis Gorffennaf 2022, roedd dyraniadau'r Bartneriaeth YE:
  - i. yn creu cyfanswm o £1.7m;
  - ii. yn defnyddio myfyrwyr amser llawn (ac ar gyrsiau rhyngosod) yn unig (dim meini prawf yn seiliedig ar ddomisil);
  - iii. yn defnyddio cofnod myfyrwyr 2016/17 HESA;
  - iv. yn defnyddio ffigurau HESA a oedd yn hepgor achosion o beidio cwblhau, ond yn cynnwys myfyrwyr nad oedd eu statws cwblhau yn hysbys. Dim ond myfyrwyr cyllidadwy a gafodd eu cynnwys;
  - v. roedd y data wedi'u dilysu.
11. Dyma oedd y dyraniadau:

<b>Partneriaethau YE</b>	<b>Dyraniadau blynyddol o gyfnod y strategaeth</b>
De Ddwyrain Cymru (Campws Cyntaf)	885,881
De-orllewin Cymru	429,622
Gogledd a Chanolbarth Cymru	384,496
cyfanswm (gan dalgrynnu)	£1,700,000

### **Cyllid Partneriaethau RW yng nghyfnod y strategaeth o 2022/23 i 2024/25**

12. Rydym yn cynnig bod dyraniadau'r Bartneriaeth YE:

- i. yn cael eu hariannu drwy £2m a ddyrennir ar sail pro-rata yn unol â ffigurau myfyrwyr MALIC yn sefydliadau rheoledig pob Partneriaeth, yn amodol ar isafswm ariannu;
  - ii. wedi'u halinio'n agosach â phoblogaethau dau gwintel isaf MALIC yn eu sefydliadau partner a reoleiddir a'r Brifysgol Agored yng Nghymru, ac ystyried bod y boblogaeth hon yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer ehangu mynediad a'r Rhaglen YE, ac yn gyson ag ymrwymïadau'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol;
  - iii. yn cynnwys isafswm ariannu o £400k i gydnabod effaith lleoliad daearyddol cyfranogwyr MALIC ar gostau cyflenwi;
  - iv. yn defnyddio data 2019/20 HESA sy'n seiliedig ar fyfyrwyr is-radd a TAR amser llawn a rhan-amser sy'n gymwys i'w hariannu gan CCAUC ym mhoblogaeth ymrestru safonol HESA, sy'n hanner o ddau gwintel isaf MALIC 2019, ac eithrio'r rhai na wnaeth gwblhau blwyddyn eu rhaglen;
  - v. yn seiliedig ar ddata sydd wedi'u dilysu gan HESA.
13. Ac ystyried paragraff 12 uchod, dyma fyddai dyraniad y Bartneriaeth YE yn 2022/23 hyd 2024/25:

<b>Partneriaethau YE</b>	<b>Dyraniadau blynyddol o gyfnod y strategaeth</b>
De-ddwyrain Cymru (Campws Cyntaf)	1,076,379
De-orllewin Cymru	523,621
Gogledd a Chanolbarth Cymru	400,000
cyfanswm (talgyrnu)	£2,000,000

### **Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

1. A yw'r fethodoleg ar gyfer dyrannu yn deg a thryloyw? Os ddim, esboniwch pam.
2. A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol neu effeithiau andwyol yn sgil y dull dyrannu a gynigir? Os felly, rhowch esboniad ohonynt.
3. A oes gennych unrhyw sylwadau pellach ynghylch y fethodoleg ariannu, gan gynnwys a yw'n gyson â'n hymrwymïadau i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yr egwyddor datblygu cynaliadwy, ein nodau a'n ffyrdd o weithio?
4. Pa effaith (os o gwbl), boed hynny'n gadarnhaol neu'n niweidiol, y bydd y cyllid yn ei gael ar:
  - i. gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; ac
  - ii. pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg?
5. Sut y gellid dylunio/newid y cyllid er mwyn iddo gael effaith gadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol, ar:
  - i. gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a
  - ii. pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg?

6. Sut y gellid dylunio/newid y cyllid fel nad yw'n cael effaith niweidiol, neu fel y byddai'n cael llai o effaith andwyol ar:
  - i. gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a
  - ii. pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg.

### **Rhagor o wybodaeth ac/neu ymatebion i**

14. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Jane Johns ([jane.johns@hefcw.ac.uk](mailto:jane.johns@hefcw.ac.uk)).
15. Cyflwynwch ymatebion i'r ymgynghoriad drwy e-bost i Amanda Phillips ([amanda.phillips@hefcw.ac.uk](mailto:amanda.phillips@hefcw.ac.uk)). Dylid cyflwyno ymatebion inni erbyn **18 Mawrth 2022**. Ni fyddwn yn gallu derbyn ymatebion ar ôl y dyddiad hwn.

### **Asesu effaith ein polisiau**

16. Rydym wedi cynnal asesiad effaith ar ganllawiau'r Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach. Wrth ddiweddarau'r asesiad effaith rydym wedi cynnwys asesiad o fethodoleg ariannu YE er mwyn helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb. Buom hefyd yn ystyried effaith y polisiau ar y Gymraeg, a darpariaeth Gymraeg yn sector AU Cymru, a'r effeithiau posibl ar y nodau a geir yn Nedd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant. Cysylltwch ag [equality@hefcw.ac.uk](mailto:equality@hefcw.ac.uk) am ragor o wybodaeth am asesiadau effaith.